
**Rhybudd o Orchymyn Gwahardd Cerddwyr Dros Dro**
**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 - Adran 14**
**Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 22 yng Nghymuned Bwcle**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn a fydd yn gwahardd cerddwyr rhag defnyddio'r rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 22 yng Nghymuned Bwcle o bwynt ar NGR 327769 364686 am bellter o tua 190 metr i gyfeiriad y de at bwynt ar NGR 327726 364519.

Mae angen cau'r llwybr er mwyn gwarchod y cyhoedd ac fel bod modd i'r datblygiad ddigwydd, yn unol â chaniatâd cynllunio cyfeirnod 05822 gyda gwaith cysylltiedig gan Medra Cyfyngedig.

Rhagwelir y daw'r Gorchymyn i rym ar 31 Gorffennaf 2023, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Disgwylir y bydd y llwybr troed ar gau am 6 mis, neu hyd nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau, ond dim mwy na chwe mis.

Dyddiedig 28 Gorffennaf 2023



Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
A B/FCC (TTRO) 047035